# Pwy? Beth? Ble? Cymerwch Ofal!

## Gweithgareddau Dilynol ar gyfer Athrawon

Mae'r gweithgareddau dilynol ar gyfer Pwy? Beth? Ble? Cymerwch Ofal! yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gyflawni canlyniadau dysgu y Cyfnod Sylfaen o'r Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 yng Nghymru 2008.


| **Pwy? Beth? Ble? Cymerwch Ofal! Gweithgareddau dilynol** | **Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd** | **Cysylltu gyda'r Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 yng Nghymru 2008.**<br>Mae'r gweithgareddau canlynol yn cynnwys agweddau o Ddatblygiad Personol (DP), Datblygiad Cymdeithasol (DC)a Lles (Ll) | |
|---|---|---|---|
| | | **Sgiliau** | **Ystod** |
| 1. Gweithgaredd dilynol | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>N(UDS)pad | • Bod yn fwy ymwybodol o ddiogelwch personol (PD)<br>• Cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain (DC)<br>• Gwerthfawrogi a chyfrannu at eu lles eu hunain a lles eraill. (Ll)<br>• Datblygu dealltwriaeth o beryglon yn y cartref ac yn yr amgylchedd tu | • Cyfrannu at eu diogelwch eu hunain<br>• Caniatáu iddynt wneud dewisiadau iach ac i ddatblygu a deall eu cyrff a sut i'w cadw'n ddiogel ac iach.<br>• Galluogi iddynt ddatrys problemau a thrafod canlyniadau |
| 2. Gweithgaredd Cartref | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)c&th | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3. Parc Denlee - Diogelwch Nodwyddau | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th | allan.(Ll)<br>• Deall y cymerir moddion i'w gwneud i deimlo'n well a bod rhai cyffuriau'n beryglus.(Ll) | |

1. **Gweithgaredd dilynol**

Er mwyn cynnal y digwyddiad hwn a 'chysylltu' gyda'r wers flaenorol bydd yr athro/athrawes angen bag y daethpwyd o hyd iddo gyda gwrthrychau go iawn neu luniau o wrthrychau (1.a) ynddo, neu labeli i greu eich adnoddau eich hun a dau gylch. Fel cyflwyniad dylai'r athro/athrawes wneud yn siŵr bod y disgyblion yn deall sut i ddefnyddio'r cylchoedd i greu diagram Venn gan y bydd y plant yn gweithio mewn grwpiau bach i ddosbarthu'r gwrthrychau y daethpwyd o hyd iddynt i gategorïau 'diogel', 'anniogel' neu 'y ddau' (1.b) gan ddefnyddio'r cylchoedd i greu diagram Venn.

Diagram Venn




Gweithgaredd Diogelwch Diagram Venn - Rhannwch y dosbarth i grwpiau bach (4-6 disgybl). Yn eu tro gofynnwch i bob grŵp ddewis llun (2.a) neu wrthrych o'r bag y daethpwyd o hyd iddo. Gofynnwch i'r plant gymryd tro i ystyried pob gwrthrych fesul un. Dylent benderfynu ble yn y cylchoedd (diagram Venn) i osod bob gwrthrych yn ôl a ydynt yn teimlo eu bod yn 'ddiogel', 'anniogel' neu 'y ddau'. Dywedwch wrth y plant fod angen iddynt siarad am bob gwrthrych a chytuno ar eu penderfyniad.

a. gofynnwch i'r plant i ystyried y gwrthrychau a roddwyd yn y cylch 'anniogel'. Yr athro/athrawes i godi'r cwestiynau canlynol gyda'r dosbarth.

- Pam eu bod yn anniogel?

- Pa wrthrychau sydd yn y ddau?

- Sut gall gwrthrych fod yn 'ddiogel' ac 'anniogel'?

b. Cymerwch wrthrych o'r casgliad 'diogel', e.e. potel o 'Calpol' a'i symud i'r 'ddau'. Gofynnwch i'r plant ystyried sut y gall 'Calpol' neu wrthrych arall fod yn 'ddiogel' ac 'anniogel'.
c. Trafodwch gyda'r plant a ddylent hwy bob amser benderfynu a yw rhywbeth yn ddiogel neu beidio neu a ddylent gael cyngor oedolyn y maent yn ymddiried ynddo/ynddi. *Sut wyddom ni y gallwn ymddiried yn rhywun?* Mae hwn yn gwestiwn da i ofyn i'r plant.

chd. Heriwch unrhyw gamsyniadau, e.e. mae dau hylif glas yn ddiogel e.e. pob blas neu gannydd glas. *A yw bob hylif glas yr un fath? All rhai hylifau glas fod yn ddiogel ac eraill yn beryglus?* Gallai hyn arwain at weithgaredd diagram Venn arall yn defnyddio hylifau glas.

e. Gallai hwn fod yn gwestiwn arall; *all rhywbeth fod yn ddiogel i lanhau'r tŷ ond yn anniogel os byddwn yn ei yfed?* Neu, *a fyddem yn defnyddio rhywbeth yr ydym yn ei yfed i lanhau'r tŷ?* Gallai hyn arwain at ragor o weithgareddau diagram Venn. Gallwch wrth gwrs yfed dŵr a'i ddefnyddio i lanhau'r tŷ, ond ni fyddem yn gwneud hyn gyda sgwash neu de.

2. **Gweithgaredd Cartref**

Cynhwyswch arolwg diogelwch o dŷ arferol. Naill ai, defnyddiwch PowerPoint (2.a) fel gweithgaredd dosbarth wedi ei hwyluso gan yr athro/athrawes neu lawrlwythwch daflen waith (2.b) er mwyn i'r disgyblion weithio mewn parau. Gan ddefnyddio llun y tŷ, gallai disgyblion labelu lle y cedwir moddion a nodi gyda thic neu gores a yw eu lleoliad yn fan diogel neu anniogel. Athro/athrawes i hwyluso trafodaeth ac atgyfnerthu'r prif negeseuon diogelwch tra'n trafod atebion y disgyblion.

**3. Parc Denlee - Diogelwch Nodwyddau**


Gofynnwch i'r disgyblion ble maen nhw'n hoffi chwarae gyda'u teulu a'u ffrindiau. Dewiswch rhai o'r disgyblion i adrodd yn ôl. Os yw'r plant yn ymateb trwy enwi llefydd anniogel, tynnwch eu sylw at y ffaith eu bod yn anniogel ac ystyriwch y rhesymau pam eu bod yn anniogel gyda'r disgyblion. Atgoffwch y plant y byddai oedolyn y maent yn ymddiried ynddynt gyda nhw fel arfer pan maen nhw'n mynd o gwmpas, ond weithiau, bydd eu rhieni/gofalwyr yn ymddiried ynddynt i wneud dewisiadau doeth a chadw'u hunain yn ddiogel. Dywedwch wrth y disgyblion y byddant nawr yn gwylio cartŵn byr (3a). Cartŵn ydyw am ddau gymeriad o'r enw Jodie a David sy'n ymweld â pharc lleol.

Ar ôl gwylio'r cartŵn, gofynnwch i'r disgyblion ystyried;

- **Beth ddaeth y cymeriadau o hyd iddo?**
- **Pam ddywedwyd wrth David am stopio ac i beidio â chodi'r nodwydd i fyny?**
- **Beth wnaeth Jodie a David ar ôl iddynt ddod o hyd i'r nodwydd?** (ailadroddwch y dylech ond galw 999 mewn argyfwng)

Gofynnwch i'r disgyblion ble ddylid cadw nodwyddau. Gan ddefnyddio'r cardiau ffotograff, (3b) esboniwch i'r dosbarth y bydd pob grŵp yn derbyn set o ffotograffau'n dangos amryw o lefydd diogel ac anniogel ar gyfer cadw nodwyddau. Gofynnwch i bob grŵp edrych ar bob cerdyn ffotograff yn ei dro a thrafod pa un ai a yw'n dangos lle diogel neu le anniogel ar gyfer cadw nodwyddau. Unwaith fydd y grŵp wedi cytuno, cânt osod y ffotograff ar y daflen 'diogel' neu 'anniogel' priodol (3c). Os oes angen, gellir dangos y cartŵn eto er mwyn ailadrodd y negeseuon diogelwch allweddol, sef cadw nodwyddau mewn man diogel a pheidio â chyfwrdd nodwyddau os ydynt yn dod o hyd iddynt yn y cartref neu y tu allan i'r cartref.

# 2. Y Cartref



# 2. Y Cartref

